

## Polisi Goruchwyllo



### **Nod**

Sicrhau awyrgylch diogel, parchus ac hapus yn yr ysgol bob amser.

### **Cyffredinol**

Ni ddylid gadael disgyblion heb oruchwyliaeth.

### **Yn y dosbarth**

Os yw'r athro yn gorfod gadael y dosbarth, rhaid trefnu fod rhywun yn goruchwyllo'r disgyblion.

### **Cyn yr ysgol**

- Caiff plant y Clwb Brecwast gyrraedd o 8:10 a'u goruchwyllo gan oruchwylwyr Clwb Brecwast yn y neuadd.
- Ni chaiff y plant adael y neuadd heb ganiatâd a bydd goruchwylwraig yn y neuadd drwy gydol yr amser, ac un aelod o staff yn y gegin.
- Anogir rhieni i beidio dod â'u plant i'r ysgol cyn 8:50 yn y bore, onibai eu bod yn mynd i'r Clwb Brecwast.
- O 8:50 ydd yr athrawon yn gyfrifol am y disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth.

### **Amser Chwarae**

- Bydd athrawon a chymhorthyddion ar ddyletswydd cyfnod egwyl, gan ddilyn amserlen bendant sydd yn cael ei hadolygu yn flynyddol ac yna fel bod angen.
- Bydd y staff yn mynd o gwmaps yr iard/cae yn goruchwyllo, sgwrsio a chwarae gyda'r disgyblion.
- Cyfrifoldeb yr athrawon dosbarth yw sicrhau fod eu disgyblion i gyd allan yn ystod amser chwarae.
- Os yw'r tywydd yn anffafriol, bydd y disgyblion yn aros yn eu dosbarthiadau gyda'r personau ar ddyletswydd yn goruchwyllo.
- Ni chaiff unigolion o du allan i'r ysgol grwydro ar dir yr ysgol, onibai fod ganddynt drefniant i wneud hynny.

### **Amser Cinio**

- Bydd goruchwylwyr ar yr iard/cae pob amser cinio, yn mynd allan gyda'r plant.
- Os yw'r tywydd yn anffafriol, caiff y disgyblion eu goruchwyllo yn eu dosbarthiadau.
- Bydd goruchwylwyr yn adrodd yn ôl i'r Pennaeth os oes unrhyw broblem wedi codi ac ymatebir fel bo angen.
- Ni chaiff unigolion o du allan i'r ysgol grwydro ar dir yr ysgol, onibai fod ganddynt drefniant i wneud hynny.

### **Ar ôl ysgol**

- Caiff disgyblion y Cyfnod Sylfaen eu trosglwyddo drwy fynedfa'r Cyfnod Sylfaen i oedolyn cyfrifol gan eu hathrawes neu gymhorthydd.
- Caiff disgyblion Cyfnod Allweddol 2 eu hebrwng i'r giât wrth ymyl y ffordd gan athrawes neu gymhorthydd.
- Disgwylir i bawb gerdded yn daclus a synhwyrol gan ddilyn rheolau'r ysgol wrth adael.

- Yn dilyn trosglwyddo'r disgyblion i'w rheini/goruchwylwyr, nid yw'r athrawon a chymorthyddion yn gyfrifol amdanynt.
- Os yw rhieni disgyblion blwyddyn CA2 am i'w plant gerdded adref eu hunain, rhaid trefnu hyn o flaen llaw a llenwi'r ffurflen ganiatâd.

Mabwysiadu: Tymor yr Hydref 2013

Adolygwyd: Blynyddol

Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr: *Alaw Ceris*

Dyddiad: 19/10/22

